# Partneriaethau llwyddiannus

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

## Cyflwyniad

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn darparu hyfforddiant dysgu proffesiynol trwy gyfrwng cwrs o'r enw Partneriaethau Llwyddiannus i athrawon fel rhan o'r rhaglen Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth drwy Ddysgu Byd-eang, sydd yn cael ei hariannu gan y Cyngor Prydeinig ac UK Aid. Mae Ysgol Gynradd Sant Iago yng Nghaerffili wedi cael partneriaeth weithredol gydag ysgol yn Lesotho ers 2019. Mae athrawon Ysgol Gynradd Sant Iago wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant  Partneriaethau Llwyddiannuss yn 2021.

"Me'r cwrs Partneriaethau Llwyddiannus Lefel 2 wedi  helpu'r ddwy ysgol i ail-ffocysu!"



ATHRAWON SANT IAGO SERENA BOUNDS A BETHAN JONES YN LESOTHO

**Serena Bounds, Athrawes Cyfnod Allweddol 2**

Ymwelais â Lesotho ym mis Mawrth 2019 gyda chefnogaeth Dolen Cymru. Cyflawnodd yr ymweliad hwn bopeth roeddwn yn gobeithio y byddai'n ei wneud, a chymaint mwy. Nawr, gallaf addysgu gyda hyder a brwdfrydedd, ac ateb y cwestiynau mae plant yn eu gofyn.

Cafodd y profiad addysgu llwyddiannus hwn ei ddilyn gydag ymweliad mwy llwyddiannus fythgan y Pennaeth ac athro o'n hysgol bartner ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Fe wnaeth y plant eu cyfarch fel enwogion, ac roeddent yn edrych ymlaen yn fawr iddynt dreulio amser yn eu dosbarthiadau.

Mae fy ysgol wedi'i leoli yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Prin bod llawer o'n plant yn gadael y stâd. Fe wnaethant ddod yn gwbl frwdfrydig drwy ddysgu am Lesotho a pha mor debyg ,ond gwahanol yw ein bywydau. Trodd safbwynt y disgyblion yn un byd-eang....

Fe wnaethom sefydlu grŵp Whatsapp i staff a chadw mewn cysylltiad, gan anfon lluniau, y newyddion diweddaraf, newyddion a dymuniadau da bob wythnos. Fe wnaethom ateb cwestiynau ein gilydd. Fe wnaethom ddathlu ein partneriaeth newydd wych a oedd mor fuddiol i'r ddwy ochr!

Ac yna, fe stopiodd y bartneriaeth. Ni wnaeth y cyfnod clo helpu.

Ac yna, e stopiodd y bartneriaeth.  Doedd y cyfyngiadau clo ddim yn helpu.

Mae cymryd rhan yn y cwrs Partneriaethau Llwyddiannus Lefel 2 wedi gwneud i'r ddwy ysgol ail-ffocysu! Mae wedi fy helpu i weld y materion sydd angen i ni eu goresgyn – ac yn hollbwysig, sut i'w goresgyn. Roedd gwerthuso'r bartneriaeth gyda'i gilydd yn taflu goleuni ar rywfaint o ffyrdd sydd eu hangen arnom i symud ymlaen.



Gallaf weld, drwy godi arian i'n hysgol bartner gael dŵr rhedeg, ein bod ni wedi newid 'cydbwysedd' y bartneriaeth. Roedd 'Single Story' TED Talk, a oedd yn rhan o'r cwrs yn ddefnyddiol iawn yma. Rwyf wedi'i rannu â'r staff. Mae ein Clwb Eco bellach yn cysylltu â'u Cyngor Ysgol er mwyn i ni ddysgu am fod yn fwy cynaliadwy a gofalu am ein hamgylchedd, rhywbeth y mae ein partneriaid yn llawer gwell am ei wneud na ni. Adnoddau nad oeddwn i erioed wedi clywed amdanynt, sy'n symud plant i ffwrdd oddi wrth stereoteipiau e.e. Mae Everyday Africa a Dollar Street wedi cael eu dosbarthu i'r staff erbyn hyn.

Mae'r ddwy ysgol yn gallu gweld bod angen inni roi'r cyfrifoldeb ar y disgyblion yn awr. Mae angen i ni rannu gwaith ac adnoddau dysgu disgyblion. Oherwydd syniadau a drafodwyd mewn ystafelloedd trafod ar y cwrs, rwyf wedi gallu cymryd rhestr o syniadau i wella cyfathrebu â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Byddai rhai ohonynt e.e. defnyddio SeeSaw, yn galluogi'r plant i rannu gwaith yn annibynnol a chael staff yn Lesotho i roi sylwadau arno – a gobeithio, fel arall....

Rwyf yn teimlo y byddaf yn dychwelyd at gynnwys y cwrs drwy gydol y flwyddyn. Byddaf yn defnyddio'r adnoddau gyda staff. Byddaf yn defnyddio'r offer gwerthuso eto i ystyried cynnydd tuag at ein cynllun gweithredu. Byddaf yn gofyn am gyngor a chefnogaeth gan WCIA a''r bobl eraill oedd ar y cwrs. Cyn y cwrs, nid oeddwn erioed wedi defnyddio Zoom o'r blaen, ac nid oeddwn hyd yn oed wedi clywed am Padlet. Yn llythrennol ac fel arall- rwyf wedi teithio'n bell!!